Eluned Morgan AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru

12 Gorffennaf 2018

Annwyl Eluned

**Pa fath o wasanaeth ieuenctid sydd ei eisiau ar Gymru? Pwyllgor i wneud gwaith dilynol ar ei Ymchwiliad i Waith Ieuenctid**

Fel y gwyddoch, cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (y Pwyllgor) ymchwiliad dilynol byr yn ddiweddar i'n Hymchwiliad 2016 i Waith Ieuenctid.

Prif ffocws yr ymchwiliad dilynol oedd canfod pa gynnydd a wnaed ers cyhoeddi ein hadroddiad ac a yw hynny'n gwneud gwahaniaeth i bobl ifanc yng Nghymru a'r rhai sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid / darparu gwasanaethau ieuenctid ar lawr gwlad. Er mwyn helpu i lywio ein barn, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad wedi'i dargedu a sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid allweddol.

Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar iawn ichi am y wybodaeth ddiweddaraf o ran y cynnydd, a roesoch ar 15 Chwefror 2018. Rhoddodd hyn ddarlun clir o'r camau a gymerwyd, a'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd, yn erbyn pob un o argymhellion y Pwyllgor. Roedd eich ymateb yn sail i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor, ac yn darparu ffocws ar gyfer ystyriaethau'r Pwyllgor.

I grynhoi, clywsom bod cytundeb cyffredinol gan randdeiliaid bod yr ymagwedd a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y misoedd diwethaf wedi bod yn gadarnhaol. Mae'r sector yn gweld bod pethau'n symud ymlaen ac fel Pwyllgor, rydym yn croesawu hynny. Un maes y tynnwyd sylw ato'n benodol oedd y newid ffocws yn ôl i 'waith ieuenctid' yn hytrach na gwasanaethau ieuenctid, a ystyriwyd yn gam ymlaen i'w groesawu. Y brif neges a glywsom oedd bod rhai negeseuon cadarnhaol iawn gennych chi fel y Gweinidog newydd a bod yn rhaid i hyn gael ei drosi nawr yn weithredu sydd o fudd i bobl ifanc ledled Cymru.

Yn yr ymgynghoriad ac mewn sesiynau tystiolaeth lafar, codwyd pryderon penodol - a gaiff eu hamlinellu isod.

**Strategaeth Genedlaethol Gwaith Ieuenctid**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith eich bod wedi nodi cynllun gwaith, sy'n cynnwys amserlenni, tuag at ddatblygu'r 'Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol' ar gyfer Cymru, a bod hyn yn cynnwys y sector gwaith ieuenctid yn ei bwyntiau datblygu a

darparu. Nodwyd bod y cynllun gwaith hefyd yn ceisio egluro'r camau yr oedd angen eu cymryd i gyflawni'r Strategaeth hon.

Rydym yn nodi bod y llinell amser ar gyfer y Strategaeth newydd, fodd bynnag, yn heriol, a chlywsom bryderon ei bod yn bosibl na fyddai hyn yn caniatáu ar gyfer ymgynghori llawn a phriodol â'r sector. Ymddengys hefyd mai ychydig iawn o ymrwymiad ystyrlon a gafwyd hyd yn hyn â phobl ifanc wrth ddatblygu'r strategaeth. Credwn ei bod yn hanfodol bod pobl ifanc yn chwarae rhan yn natblygiad y Strategaeth. Felly, rydym yn creosawu eich datganiad ysgrifenedig diweddar ar 2 Gorffennaf 2018 lle rydych yn ailadrodd y bydd y broses o ddatblygu Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd yn cael ei gwneud mewn partneriaeth â phobl ifanc a'r sectorau gwaith ieuenctid gwirfoddol a statudol.

Roedd teimlad cryf ymysg rhanddeiliaid hefyd nad oedd yn ddigon i gael y Strategaeth yn unig. Mae'n rhaid ei chyflwyno bellach, ac mae'n rhaid sicrhau bod dulliau ar gyfer monitro ac adrodd yn ôl yn cael eu rhoi yn eu lle.

**Asesiadau Digonolrwydd**

Yn gyffredinol, cefnogwyd egwyddor yr asesiadau digonolrwydd arfaethedig, a nodwyd y gallai'r rhain helpu i ddatblygu dealltwriaeth barhaus a llawnach o ddarpariaeth gwaith ieuenctid sydd ar gael. Fodd bynnag, roedd pryder o hyd ynghylch statws a gofynion penodol asesiadau o'r fath, yn ogystal â beth fyddai cynnwys y rhain.

**Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim**

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i sefydlu'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim, ac roedd rhai rhanddeiliaid yn ystyried hyn yn gam cadarnhaol tuag at gorff cenedlaethol. Fodd bynnag, mynegwyd pryder y gallai fod diffyg eglurder o ran rôl y Bwrdd, a rhaid sefydlu cylch gorchwyl clir ar ei gyfer. Roedd galwad hefyd am ragor o wybodaeth am y Bwrdd Interim, gan gynnwys manylion ynghylch sut y caiff ei ddal yn atebol, a beth fydd ei gyfansoddiad.

Mae angen i'r bwrdd interim ystyried anghenion y sector, ac roedd penodi Cadeirydd y Bwrdd Interim yn hollbwysig. Cytunwyd bod angen sicrhau y byddai gan y person a benodwyd ddealltwriaeth a gwybodaeth am waith ieuenctid a'r sector. Nodwn fod eich datganiad ar 2 Gorffennaf 2018 yn cadarnhau eich bod wedi penodi Keith Towler yn Gadeirydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim a'ch bod wedi pwysleisio iddo fod hon yn agenda heriol.

Roedd rhanddeiliaid hefyd yn credu y dylid ystyried sut y gallai pobl ifanc ddylanwadu'n ystyrlon ar waith y Bwrdd.

**Ymgysylltu â Phobl Ifanc**

Un o'r materion arwyddocaol a godwyd yn y dystiolaeth yw bod cyfraniad pobl ifanc yn y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru fel petai wedi lleihau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Dywedodd nifer o randdeiliaid nad oedd, yn eu barn hwy, ddigon o ymgynghori â phobl ifanc wedi digwydd o ran penderfyniadau diweddar.

Un enghraifft a nodwyd oedd nad oes gan y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid unrhyw bobl ifanc yn eistedd arno erbyn hyn, er mai fel arall yr arferai fod. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ailystyried hyn:

Mae'r Pwyllgor hefyd o'r farn ei bod yn hanfodol y dylech chi, fel y Gweinidog cyfrifol, ymgysylltu â phobl ifanc am y cynnig. Mae'n amlwg bod angen egluro beth mae'r cynnig yn ei olygu i bobl ifanc, er mwyn iddo gael ei ddeall ac i bobl ifanc ymgysylltug ef.

**Cyllid**


Roedd tystiolaeth a gafwyd yn awgrymu, o ran cyfanswm yr arian o £31 miliwn y flwyddyn, mai canran fach o hyn aiff i'r sector gwirfoddol. Er mwyn deall yn iawn sut y caiff cyfanswm y cyllid hwnnw ei ddosbarthu, mae angen ffordd dryloyw o fesur sut y caiff y £31 miliwn ei wario.

**Diwygio'r Cwricwlwm**

Roedd cytundeb ar draws y sector bod cyfle gwych ar hyn o bryd i adeiladu gwaith ieuenctid i mewn i'r cwricwlwm cenedlaethol, ond mae'n anodd gweld sut y gellir gwneud hyn yn effeithiol gan nad yw'n ymddangos bod agwedd strategol ar draws Llywodraeth Cymru i alluogi hyn. Cred y Pwyllgor y dylech chi, fel Gweinidog, weithio gydag Ysgrifennydd y Cabinet i helpu i gynnwys gwaith ieuenctid yn y cwricwlwm newydd.

Fel rydym wedi amlinellu eisoes, mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i gynnal gwaith craffu parhaus ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n ymwneud â gwaith ieuenctid, ac mae'n awyddus i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud ar yr holl argymhellion a wnaed yn ei adroddiad. Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r rôl y bydd gan y Bwrdd Gwaith Ieuenctid wrth ddarparu cyngor ac arweiniad i Lywodraeth Cymru, rydym yn cydnabod mai Llywodraeth Cymru fydd yn parhau i fod yn gyfrifol. I'r perwyl hwnnw, bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro gweithgaredd Llywodraeth Cymru yn erbyn argymhellion 2016, a'r ymrwymiadau a roddwyd gennych i'r rhain.

Yn gywir



**Lynne Neagle AC / AM**
**Cadeirydd / Chair**